Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr

Y myth Mae HSE yn dal i wahardd popeth dan haul

Y gwirionedd Dywedir yn rhy aml o hyd bod HSE a chyfraith iechyd a diogelwch yn gyfrifol am wahardd pob math o bethau – digwyddiadau rholio caws, gwau mewn ysbytai a hyd yn oed deintbigau!

Mewn gwirionedd, ychydig iawn o bethau y mae HSE wedi'u gwahardd yn llwyr, heblaw am rai eithriadau peryglus iawn fel asbestos, sy'n lladd tua 4000 o bobl bob blwyddyn.

Defnyddir iechyd a diogelwch fel esgus cyfleus yn rhy aml, ond mae'n amser herio hyn ac atgoffa pobl i ganolbwyntio ar y risgiau go iawn – y rhai sy'n dal i achosi pobl i gael eu lladd, eu hanafu neu fynd yn sâl yn y gwaith.

Herio'r mythau a mynd i'r afael â'r risgiau go iawn!